



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

SAFONAU'R GYMRAEG

Adroddiad Monitro
Blynyddol
Ebrill 2022 - Mawrth 2023



SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

Cynnwys

Cyflwyniad.....	Error! Bookmark not defined.
Crynodeb Gweithredol	Error! Bookmark not defined.
Y cefndir a'r sefyllfa bresennol.....	5
Atebolrwydd a chyfrifoldeb dros y Gymraeg	Error! Bookmark not defined.
Trefniadau cymeradwyo'r adroddiad hwn.....	Error! Bookmark not defined.
Cwynion	Error! Bookmark not defined.
Materion a gododd yn ystod y cyfnod adrodd.	Error! Bookmark not defined.
Cadw cofnodion y Safonau	Error! Bookmark not defined.
Cwynion	Error! Bookmark not defined.
Casgliad.....	Error! Bookmark not defined.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

Cyflwyniad

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (ATACGC) yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog ein cymunedau ac arwyddocâd ein treftadaeth ddiwylliannol. Rydym yn cydnabod, o dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, fod gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg, ac rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth gynnal ein busnes.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar GTACGC i gydymffurfio â set o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Fel Awdurdod, rydym yn parhau i weithio o fewn Safonau'r Gymraeg, gan eu defnyddio i ddatblygu ymhellach ein hymrwymiad a'n dyhead i ddarparu gwasanaethau yn gyfartal i holl ardaloedd canolbarth a gorllewin Cymru.

Rydym hefyd yn cydnabod ein dyletswydd tuag at ein staff ein hunain, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn drigolion canolbarth a gorllewin Cymru ac yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau eu hunain.

Er gwaethaf yr heriau sylweddol sy'n ein hwynebu, rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig herio a gwella'r ffordd rydym yn gweithio er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i'n cymunedau. Rydym bob amser yn agored i newid ac yn ffynnu wrth ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau. Trwy gynllunio gofalus, gallwn ystyried yr hyn rydym eisiau ei wneud ar gyfer y tymor byr, canolig a hir i sicrhau ein bod yn adolygu ein gweithgareddau yn barhaus ac yn adeiladu gweithlu cynrychioliadol i'n helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n gwbl gynhwysol, gan sicrhau bod ein staff a'n cymunedau'n gallu cyrchu ein gwasanaethau yn iaith eu hangen a'u dewis.

Diolch,

Gwynfor Thomas.

Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

Crynodeb Gweithredol

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, rydym yn glir, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb. Rydym yn ymfalchïo yn ein hymrwymiad parhaus i'r Gymraeg, ac i gynyddu gwasanaethau dwyieithog a dewis iaith i'n staff a'n cymunedau o flwyddyn i flwyddyn.

Ein gweledigaeth yw gwasanaeth Cymraeg uchelgeisiol lle bydd yr holl staff sy'n gweithio i GTACGC yn gallu deall a defnyddio lefel o Gymraeg sy'n briodol i'w rôl.

Ein cenhadaeth yw darparu gwasanaeth Cymraeg sy'n mynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth ddeddfwriaethol ac sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a'r staff rydym yn eu cyflogi, gan gydnabod eu hawliau, cwrdd â'u hanghenion, a chyfrannu at eu datblygiad. Mae ein gwerthoedd sefydliadol yn sail i'r ymagwedd hon.

Gan gymryd arweiniad gan Lywodraeth Cymru, credwn fod y Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom beth bynnag fo'n cefndir ieithyddol a'i fod yn sgil galwedigaethol y dylai ein holl staff feddu arno, ar lefel briodol, yn ôl eu rôl a'u lleoliad, i'n galluogi i ddatblygu, darparu a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg priodol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed mewn meysydd gwasanaeth allweddol a llwyddiannau nodedig a fydd yn gwella ein gallu i ddarparu ein gwasanaethau'n ddwyieithog. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod, er bod cynnydd da wedi'i wneud, bod gwaith parhaus i'w wneud i sicrhau ein bod yn cydnabod anghenion iaith ac yn darparu dewisiadau iaith gwirioneddol i'n cymunedau a'n staff. Rydym wedi nodi camau gweithredu allweddol yn yr adroddiad hwn y byddwn yn eu blaenoriaethu ar gyfer gwelliant dros y deuddeg mis nesaf. Bydd y meysydd allweddol hyn yn parhau i adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud eleni i wella gallu dwyieithog ein Gwasanaeth.

Rydym eisiau sicrhau bod gennym y nifer gorau posibl o staff dwyieithog mewn meysydd allweddol sy'n adlewyrchu proffil iaith ein cymunedau. Rydym felly'n parhau'n ymrwymedig i hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog a chreu amgylchedd cadarnhaol i'n staff a'n cymunedau ymgysylltu â ni yn ffurfiol ac yn anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Diolch.

Roger Thomas.

Prif Swyddog Tân

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

Y cefndir a'r sefyllfa bresennol

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ei Hysbysiad Cydymffurfiaeth, o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ATACGC ar 30 Medi 2016. Mae'r hysbysiad hwn yn nodi pa Safonau a osodir arnom, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu. Mae Hysbysiad Cydymffurfiaeth ATACGC ar gael [yma](#) ar ein gwefan.

Fel rhan o'r Hysbysiad Cydymffurfio, roedd yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, erbyn 30 Mawrth 2017, gyhoeddi dogfen yn nodi sut roedd yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau ar lefel gorfforaethol – a beth oedd ei brosesau mewnol ar gyfer goruchwyllo a monitro gweithrediad. Mae Cynllun Gweithredu ATACGC ar gael [yma](#) ar ein gwefan.

O dan y ddeddfwriaeth, mae hefyd yn ofynnol i ATACGC gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed tuag at fodloni a chynnal Safonau'r Gymraeg.

Yr adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2022/23 yw gwerthusiad ATACGC o sut rydym wedi cydymffurfio â'r Safonau a sut rydym wedi hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r adroddiad hwn, ynghyd ag adroddiadau blaenorol, ar gael [yma](#) ar ein gwefan.

Atebolrwydd a chyfrifoldeb am y Gymraeg

Ar lefel GTACGC, Pwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n atebol am y Gymraeg.

O fewn GTACGC, y Bwrdd Gweithredol sydd â'r swyddogaeth reoli uchaf ac mae'n cael ei arwain gan y Prif Swyddog Tân. O fewn y Bwrdd Gweithredol, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, sydd â chyfrifoldeb rheoli llinell dros yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes, sy'n arwain ar yr iaith Gymraeg.

Mae gan y Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes gyfrifoldeb strategol a gweithredol dros y Gymraeg.

Swyddog yr Iaith Gymraeg sy'n gyfrifol am weithredu'r Safonau ac am hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Trefniadau cymeradwyo'r adroddiad hwn

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i Bwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'i gymeradwyo ganddo ar 31 Gorffennaf 2023.

Cwynion

Gellir gwneud canmolïaeth, sylwadau a chwynion am y Gymraeg yma.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

Materion a gododd yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r tabl isod yn cofnodi'r camau a gymerwyd yn ystod 2022/23 a'n cynlluniau ar gyfer camau i'w cymryd yn 2023/24.

Grŵp Safonau	Camau a roddwyd ar waith yn 2022/23	Camau i'w rhoi ar waith yn 2023/24
Safonau cyflenwi gwasanaeth		
Gohebiaeth 1, 4, 5-7	<p>Sicrhawyd bod pob tîm gweinyddol adrannol yn gyfarwydd â'r canllawiau a'r adnoddau sydd ar gael mewn perthynas â'r Safonau penodol hyn.</p> <p>Yn dilyn mater a nodwyd yn ystod 2021/22 ac eglurhad a dderbyniwyd gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, gwnaethom ailddatgan gofynion i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau hyn, gan addasu ein deunydd canllaw fel y cyfryw.</p>	Dim camau gweithredu wedi'u cynllunio ar gyfer 2023/24 er y byddwn yn parhau i fonitro ein cydymffurfiaeth â'r Safonau hyn.
Galwadau ffôn 8-10, 12-18, 20-22 Cyfarfodydd 24, 25/A/D Cyfweiliadau i gynorthwyo ag ymholiadau. 26/A, 27/A	<p>Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd ymarfer siopwr cudd i roi sicrwydd i ni ein hunain o'r ymagwedd gyffredinol at y Safonau hyn.</p> <p>Nodwyd rhai problemau fel rhan o'r broses hon, yn enwedig o ran defnyddio dull cyson a dwyieithog o ateb galwadau ffôn, a chynhaliwyd ymarfer cyfathrebu ac ymgysylltu i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol.</p>	Byddwn yn parhau i fonitro ein hymagwedd at y Safonau hyn a byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ein deunydd canllaw fel rhan o'r broses hon fel bod yr holl staff yn ymwybodol yn barhaus o'r disgwyliadau sydd arnynt.
Cyfarfodydd cyhoeddus 28-32	Y cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf ers llacio cyfyngiadau Covid-19 oedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ATACGC ar 4 Gorffennaf 2022.	Byddwn yn parhau i fonitro disgwyliadau deddfwriaethol ATACGC i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ei hun yn ogystal â bodloni gofynion

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

	<p>Fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cynhyrchwyd Gweithdrefn Aml-leoliad ar gyfer yr Awdurdod, sydd bellach wedi'i chynnwys yn y Cyfansoddiad. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar ddefnyddio cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd llawn yr Awdurdod a Phwyllgorau.</p>	<p>Safonau'r Gymraeg sydd arnom.</p>
<p>Digwyddiadau cyhoeddus 33-34</p>	<p>Yn ystod 2022/23, bu Swyddog Iaith Gymraeg GTACGC yn bresennol ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau a arweiniwyd gan GTACGC i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau hyn.</p> <p>Braf oedd nodi bod y defnydd o'r Gymraeg yn rhagorol, ac mewn rhai achosion dyma'r brif iaith a ddefnyddiwyd i ysgogi cyfathrebu ac ymgysylltu. Cynhyrchwyd yr holl ddeunyddiau gweledol a chlywedol yn ddwyieithog, ac roedd siaradwyr Cymraeg bob amser ar leoliad ac yn hygyrch i'r cyhoedd.</p>	<p>Byddwn yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth ac ystyried dulliau ar gyfer datblygiadau a gwelliannau pellach y tu hwnt i gydymffurfiaeth ddeddfwriaethol yn y maes hwn.</p>

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

<p>Cyhoedduswydd a hysbysebu 35,36 Dogfennau cyhoeddus 38, 45-47 Ffurflenni 48/A/B</p>	<p>Yn ystod 2022/23 gwnaethom barhau â'n hadolygiad blynyddol o gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn y maes hwn, gan wneud newidiadau bach ond ystyrlon i'r canllawiau a'r adnoddau priodol.</p>	<p>Yn ystod 2023/24 bydd gofyn i'r Gwasanaeth gaffael darpariaeth cyfieithu Cymraeg newydd gan fod y cytundeb presennol yn dod i ben.</p> <p>Fel rhan o'r broses hon, ac mewn ymgynghoriad â'r cwmni llwyddiannus, y bwriad yw adolygu'r traw iaith a ddefnyddir yn y Gymraeg a'r Saesneg i sicrhau nad yw'r iaith yn rhy ffurfiol ac yn galluogi ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd.</p> <p>Yn ogystal, bydd angen ymwybyddiaeth ym mhob Adran o'r newid mewn darparwyr cyfieithu, gan gadarnhau'r broses a'r amserlen gyfieithu newydd.</p>
<p>Gwefan 49, 52, 53 Apiâu 54</p>	<p>Yn ystod 2022/23 gwnaethom barhau i godi ymwybyddiaeth o fewn Adrannau, tra bod yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes yn gyfrifol am reoli gwefan allanol y Gwasanaeth, eu bod yn gyfrifol am y cynnwys sy'n briodol i'w rolau a'u cylch gorchwyl a bod angen sicrhau bod y cynnwys yn gyfredol, yn gywir ac yn hygyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>	<p>Gan fod y Gwasanaeth nawr yn bwriadu datblygu gwefan newydd yn ystod 2023/24, bydd ymarferiad yn cael ei gynnal i sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg perthnasol, yn ogystal â chwilio am gyfleoedd i fynd y tu hwnt i gydymffurfio ac ymestyn yr hyn sy'n cael ei gynnig trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.</p>
<p>Cyfyngau cymdeithasol 55-56</p>	<p>Yn ystod 2022/23 gwnaethom sicrhau bod pob Adran sydd â chyfrifon cyfyngau cymdeithasol yn deall bod Safon 56, mewn perthynas ag ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg, yn berthnasol iddynt ac y dylent ystyried</p>	<p>Yn ystod 2023/24 byddwn yn parhau ag adolygiad cydymffurfio Safonau'r Gymraeg ar ein sianeli cyfyngau cymdeithasol, gan ddefnyddio dadansoddeg ymgysylltu i ystyried a theilwra ein hymagwedd.</p>

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

	gohebiaeth ddwyieithog ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol fel arfer gorau.	
Arwyddion 58-60 Gwasanaethau derbynfydd 61,64-5 Hysbysiadau 66,67 Tendrau 73,74/A,75,77	Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd archwiliad o arwyddion yn y gweithle a lle nodwyd problemau, cafodd arwyddion eu diweddarau neu eu newid. Cynhaliwyd proses sicrwydd o'n dull caffael hefyd, a gyda chlod i adran Gaffael GTACGC, ni nodwyd unrhyw broblemau.	Dim camau gweithredu wedi'u cynllunio ar gyfer 2023/24 er y byddwn yn parhau i fonitro ein cydymffurfiad â'r Safonau hyn.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

Grŵp Safonau	Camau a roddwyd ar waith yn 2022/23	Camau i'w rhoi ar waith yn 2023/24
Safonau cyflenwi gwasanaeth		
Cyrsiau addysg 81	O ganlyniad i oedi cyn mynd yn fyw, nid oedd GTACGC yn gallu cefnogi lansiad <i>Staywise Cymru</i> yr oedd wedi ymrwmo iddo ond gwnaeth barhau i ddatblygu adnoddau addysg ddwyieithog yn barod ar gyfer y lansiad yn y pen draw.	Yn ystod 2023/24 byddwn yn cefnogi lansiad <i>Staywise Cymru</i> , sydd i fod i ddigwydd yn Eisteddfod yr Urdd, Llanymddyfri ym mis Mai 2023.
Safonau llunio polisiau		
Safonau llunio polisiau 85-90, 92-94	<p>Mae Adnodd Asesu Effaith y Gymraeg GTACGC yn parhau i gael ei ddefnyddio'n effeithiol ar gyfer unrhyw bapurau sy'n cael eu drafftio at ddibenion gwneud penderfyniadau i'w hystyried gan y Timau Gwasanaeth a'r Tîm Arwain Gweithredol.</p> <p>Mae Strategaeth y Gymraeg newydd bellach wedi'i drafftio a'i chyflwyno drwy broses lywodraethu'r Gwasanaeth, ac yn amodol ar rai mân newidiadau yn barod i'w chyhoeddi. Y darn olaf o waith ynghylch yr ymrwymadau a'r amcanion a wneir o fewn y Strategaeth hon fydd datblygu cynllun gweithredu blynyddol a fydd yn amlinellu manylion yr hyn y bydd unigolion, timau ac adrannau yn ei wneud i alluogi'r Gwasanaeth i gyflawni yn ei erbyn.</p>	Yn ystod 2023/24 byddwn yn cynnal lansiad ffurfiol ac yn dechrau ar y broses o wreiddio'r Strategaeth Gymraeg newydd a'i chynllun gweithredu cysylltiedig.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

Grŵp Safonau	Camau a roddwyd ar waith yn 2022/23	Camau i'w rhoi ar waith yn 2023/24
Safonau Gweithredol		
Polisi'r Gymraeg 95	O ganlyniad i salwch staff, ychydig o gynnydd a wnaed yn y maes hwn ac o'r herwydd, rydym yn parhau i ymrwmo i ddatblygu polisi'r Gymraeg newydd ar gyfer 2023/24.	Yn ystod 2023/24 byddwn yn dylunio, datblygu ac ymgynghori ar Bolisi'r Gymraeg newydd ar gyfer GTACGC.
Contractau a gohebiaeth am gyflogaeth 96-101	<p>Fel rydym yn ei wneud yn rheolaidd, yn ystod 2022/23, gwnaethom atgoffa Rheolwyr mewn trafodaethau adolygu cydymffurfiaeth fod ganddynt rôl o ran gwybod beth yw dewis iaith eu staff a sicrhau bod staff yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Yn ogystal, eleni, mae'r Adran Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi bod yn datblygu proses gwerthuso staff newydd a darparwyd cryn dipyn o gymorth i sicrhau bod y system newydd hon yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Safonau.</p>	Yn ystod 2023/24 byddwn yn parhau i gydweithio â'r Adran Pobl a Datblygiad Sefydliadol i sicrhau bod proses Arfarnu newydd y Gwasanaeth, sydd i fod i fynd yn fyw yn ystod chwarter 1 2023/24, yn bodloni gofynion y Safonau mewn darparu hyfforddiant.
Cyhoeddi polisiâu yn Gymraeg 102-108	Yn ystod 2022/23 gwnaethom barhau i adolygu polisiâu presennol er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llwyr, ac fe roeddem. Fel rhan o'r broses hon, rydym yn atgoffa'r rhai sy'n gyfrifol am reoli a diweddarau'r polisiâu hyn bod angen iddynt sicrhau bod y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn aros yr un fath a'u bod ar gael yn hawdd i'r holl staff.	Yn ystod 2023/24 byddwn yn parhau i adolygu polisiâu presennol i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

<p>Cwynion gan ac yn erbyn staff 109/A, 110, 112 Y broses ddisgyblu 113/A, 115-6</p>	<p>Yn ystod 2022/23 cyhoeddwyd canllawiau gennym ar gwynion mewnol, cwynion cyflogaeth, a materion disgyblu sy'n cynnwys cyfeiriad at ofynion Safonau'r Gymraeg. Rhennir y canllawiau hyn gyda Phenaethiaid Adran a Rheolwyr priodol.</p>	<p>Dim camau gweithredu wedi'u cynllunio ar gyfer 2023/24 er y byddwn yn parhau i fonitro ein cydymffurfiaeth â'r Safonau hyn.</p>
<p>Darparu meddalwedd a rhyngwynebau cyfrifiadurol 117 Mewnrwyd 119, 121-2</p>	<p>Yn ystod 2022/23 parhawyd i gefnogi'r adran TGCh i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg fel rhan o'u prosiect i ddatblygu mewnrwyd Gwasanaeth newydd. Aeth y fewnrwyd hon yn fyw yn ystod rhan olaf blwyddyn galendr 2022.</p>	<p>Gan gydnabod bod y fewnrwyd yn dal yn newydd, yn ystod 2023/24, byddwn yn parhau i gefnogi'r adran TGCh i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, yn ogystal â dechrau ar y broses o ddeall beth arall y gellir ei gynnig gyda'r system TGCh newydd, fodern hon.</p>
<p>Sgiliau Cymraeg 124 Cyflwyno hyfforddiant yn Gymraeg 125-6 Gwersi Cymraeg, hyfforddiant i reolwyr ac Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg 127-129 Cynefino 130</p>	<p>Yn ystod 2022/23, mae Swyddog y Gymraeg y Gwasanaeth wedi ymwreiddio fel rhan o'r broses gynefino ar gyfer recriwtiaid Diffoddwyr Tân newydd, ac mae bellach yn cynnal sesiwn hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn rheolaidd fel rhan o'r broses hon.</p> <p>Wrth baratoi ar gyfer datblygu Strategaeth newydd y Gymraeg, cyflwynodd Swyddog y Gymraeg hefyd Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i dîm Arweinyddiaeth Gweithredol GTACGC, ymarfer a gafodd dderbyniad da ac a chwaraeodd rôl hanfodol wrth ddatblygu'r hyn sydd bellach yn ymrwymiadau ac amcanion strategol a gynhwysir yn y Strategaeth.</p>	<p>Yn ystod 2023/24 rydym yn bwriadu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu ein dull o gasglu data sgiliau Cymraeg. • Datblygu strategaeth sgiliau Cymraeg. • Datblygu a threialu sesiynau hyfforddi dwyieithog i annog staff i ddewis opsiynau Cymraeg ac i ddatblygu eu hyder a'u sgil wrth ddefnyddio'u Cymraeg mewn amgylchedd hyfforddi. • Ehangu sesiynau cymorth a chynlluniau cyfaill i ddysgwyr a'r rhai sy'n gwella eu Cymraeg. • Adolygu cynnwys a deunyddiau cynefino cyffredinol Cymraeg ar draws yr holl fathau o gontractau staff, gan adeiladu ar

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

	Oherwydd salwch staff, nid yw meysydd eraill roeddem yn gobeithio eu datblygu yn ystod 2022/23 wedi'u cwblhau ac felly byddant yn cael eu symud i gyfnod adrodd 2023/24.	lwyddiant ein hymagwedd gyda rolau Diffoddwyr Tân.
Llofnodion e-bost a manylion cyswllt 131-2	Ni wnaed unrhyw gynnydd yn ystod 2022/23 oherwydd cyfnod o salwch staff felly bydd camau gweithredu yn cael eu datblygu yn ystod 2023/24.	Yn ystod 2023/24 byddwn yn cynnal ymarfer Siopwr Cudd, gan archwilio cydymffurfiaeth â'r Safonau hyn.
Recriwtio 134/A, 135/A/B, 137-8	Ni wnaed unrhyw gynnydd yn ystod 2022/23 oherwydd cyfnod o salwch staff ac, yn bennaf, roedd y ddealltwriaeth bod darpariaeth cyfieithu presennol y Gwasanaeth ar fin dod i ben ac y byddai angen cynnal ymarfer caffael i sicrhau darparwr cyfieithu newydd.	Unwaith y bydd ymarfer caffael wedi'i gynnal a darparwr cyfieithu newydd wedi'i sicrhau, yn ystod 2023/24, cynhelir ymarfer i adolygu a gwella'r broses fusnes sy'n gysylltiedig â chyfieithu deunydd recriwtio.
Arwyddion yn y gweithle 140/1	Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd archwiliad o arwyddion yn y gweithle a lle nodwyd problemau, cafodd arwyddion eu diweddarau neu eu newid.	Dim camau gweithredu wedi'u cynllunio ar gyfer 2023/24 er y byddwn yn parhau i fonitro ein cydymffurfiad â'r Safonau hyn.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD BLYNYDDOL EBRILL 2022 – MAWRTH 2023

Cadw cofnodion y Safonau

Cwynion

Mae'r tabl isod yn dangos na dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod adrodd:

Grŵp safonau	Cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol
Safonau cyflwyno gwasanaeth	0
Safonau llunio polisïau	0
Safonau gweithredol	0

Casgliad

Fel yr amlinellwyd yng ngorff yr adroddiad hwn, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gyda chefnogaeth ei gorff llywodraethu, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, wedi ymrwmo i gynyddu lefelau cydymffurfio â'i Safonau'r Gymraeg.

Fel Gwasanaeth, rydym yn falch o'r camau sylweddol rydym eisoes wedi'u cymryd i wella ein darpariaeth gwasanaeth dwyieithog ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth, staff, rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod lle i wella o hyd, y byddwn yn mynd i'r afael ag ef yn ystod 2023/24.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg a bydd yn parhau i hyrwyddo, cefnogi ac annog defnydd o'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth a'n cymunedau ar bob cyfle.

Am ragor o wybodaeth am fanylion yr adroddiad hwn, neu am ragor o wybodaeth am weithrediad Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â Clare Grist, Swyddog yr Iaith Gymraeg drwy e-bostio c.grist@tancgc.gov.uk

SAFONAU'R GYMRAEG

Adroddiad Blynyddol
Ebrill 2022 – Mawrth
2023

www.tancgc.gov.uk/cy



**Cyfathrebu Corfforaethol
a Datblygu Busnes**
Corporate Communications and
Business Development

JR1637